# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 4 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3994

# 21

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1 a 4 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2, siaradodd Paul Davies ar ran Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig.

### Cwestiwn Brys 1

Dechreuodd yr eitem am 14.16

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i uno elfennau o Amgueddfa Cenedlaethol Cymru â Cadw? EAQ(5)0053(EI)

### Cwestiwn Brys 2

Dechreuodd yr eitem am 14.31

**Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru yn sgil argymhelliad Prif Weinidog y DU o ran y Bil diddymu cyfraith yr UE? EAQ(5)0189(FM)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.41

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Prosiect Coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd

Dechreuodd yr eitem am 15.00

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Diweddaraf ar Ddiwygio Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 15.39

## 5 TYNNWYD YN ÔL: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Gwella Gofal i Afiechydon Difrifol

Dechreuodd yr eitem am 16.28

## 7 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016

Dechreuodd yr eitem am 17.06

**NDM6106 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Medi 2016.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl: Blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol

Dechreuodd yr eitem am 17.08

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM6107 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii):

Yn nodi blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw'r Rhaglen Lywodraethu a'r rhaglen ddeddfwriaethol yn ennyn yr hyder na'r manylion sydd eu hangen i wella cyfleoedd bywyd pobl a chymunedau ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 29 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod Rhaglen yr Wrthblaid Plaid Cymru yn nodi agenda fwy uchelgeisiol a chynhwysfawr i Gymru yn ystod y Pumed Cynulliad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 39 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ddiffyg mesurau perfformiad yn y Rhaglen Lywodraethu a fyddai'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a dinasyddion Cymru i werthuso cynnydd Llywodraeth Cymru o ran blaenoriaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 29 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Rhaglen Lywodraethu yn cyfeirio at y ffaith bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, a methiant Llywodraeth Cymru i amlinellu'r mesurau y mae'n bwriadu eu cyflwyno i fynd i'r afael â chanlyniadau'r penderfyniad hwn i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 29 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y diffyg manylion yn y Rhaglen Lywodraethu ynghylch y mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gyflawni'r blaenoriaethau a gaiff eu hamlinellu ynddi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 29 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynllunio ei rhaglen ddeddfwriaethol i sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar filiau gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM6107 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii):

1. Yn nodi blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynllunio ei rhaglen ddeddfwriaethol i sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar filiau gan y Cynulliad Cenedlaethol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.59

Daeth y cyfarfod i ben am 18.02

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 5 Hydref 2016**